# Y NEGESYDD

## MAI 2022

EGLWYS EMAUS BANGOR


### GAIR GAN Y GWEINIDOG

UN DYN

Yn ei lythyr at y Cristnogion yn Rhufain mae'r Apostol Paul yn cynnig campwaith o ymresymu cyfreithiol sy'n gallu bod braidd yn drwm i'r meddwl modern. Mae e'n cyfeirio sylw ei wrandawyr at Adda, y person cyntaf oll a sut y gwnaeth ei fwriadau a'i weithredoedd drwg ddod â llanast llwyr i'r ddynoliaeth gyfan. Os ydy popeth wedi mynd o'i le oherwydd un dyn a'i wrthryfel, mae un dyn arall wedi dod i achub y ddynoliaeth ac unioni'r cam, a'r person hwnnw ydy Crist ei hun. Os ydy un dyn wedi'n baglu ni, diolch byth bod na Un Arall sydd wedi rhoi ei fywyd drosom i achub y dydd.

Dros y misoedd diwethaf mae ein sylw ni wedi ei hoelio ar un dyn sydd wedi agor y drws ar ddioddefaint a lladd a dinistr sef Vladimir Putin. Wrth gwrs, mae yna eraill o'i amgylch sy'n gydeuog, ond eto, cawn y teimlad os nad oedd Putin wrth y llyw y gallai'r hanes fod yn dra wahanol. Yn y lluniau erchyll a ddaw'n ddyddiol o hil laddiad ac o fwtsiera'r diniwed yn yr Wcráin rydym yn ailymweld â dyddiau tywyll ein gorffennol – Rwanda a Kosovo, caeau lladd y Khmer Rouge ac erchyllderau'r Holocaust a daw rhyw ysictod drosom.

A ninnau newydd ddathlu'r Pasg, diolchwn fod ganddon ni Waredwr oedd yn fodlon cerdded i ganol tywyllwch y Groglith gan wynebu dioddefaint a marwolaeth erchyll er ein mwyn. Diolchwn ei fod wedi concro marwolaeth ac atgyfodi a'i fod gyda ni ac yn ein plith ddwy fil o flynyddoedd yn ddiweddarach yn ein cymell i garu ac i faddau, i ofalu am ein gilydd ac estyn llaw i helpu dioddefwyr ein dydd. Pan fydd teyrnasiad Putin o gasineb a lladd wedi darfod, bydd Teyrnas Iesu o gyfiawnder a chymod a heddwch yn parhau i'n hysbrydoli ni i fod y bobl ddynol lawnaf posibl. Os ydy gweithredoedd un dyn yn ein gwylltio a'n tristau y dyddiau hyn, diolch y gallwn ni droi ein golygon at yr Un Arall hwnnw sy'n ein cymell i ddal ati i garu a gwasanaethu a rhannu'r goleuni mewn dyddiau tywyll.



# ER COF AM BET EIRUG DAVIES

Ganwyd Elizabeth Ann Morris ym mis Awst 1929 yn ail blentyn i Howell a Blodwen Mary, ac yn chwaer fach i Hugh, yn 3 Yankee Street, Llanberis. Yn fuan wedyn dilynodd tair chwaer sef Beryl, Gwyneth a Jane. Symudodd y teulu i Ddôl Elidir, Llanberis ac yno y bu rhieni Bet fyw am y rhan fwyaf o'u hoes.

Cafodd Bet ei haddysg yn Ysgol Dolbadarn ac yna yn Ysgol Ramadeg Brynrefail cyn mynd i'r Coleg Normal ym Mangor ym mis Hydref 1948 i hyfforddi fel athrawes Gwyddor Cartref. Ar ôl tair blynedd yno cafodd ei swydd gyntaf yn Ysgol Dolgarrog lle bu'n gyfrifol am yr adran Gwyddor Cartref. Ymhen dwy flynedd symudodd i Ysgol Uwchradd Dyffryn Ogwen ym Methesda i ddysgu coginio a gwnïo ar draws yr ysgol, ac yno y cyfarfu â John Eirug, yr athro daearyddiaeth o Lanbedr Pont Steffan. Hudodd John Bet trwy addo mynd â hi am dro yn ei gar newydd, a datblygodd y berthynas o'r fan honno. Priodwyd y ddau ym mis Ebrill 1954 yng Nghapel Coch, Llanberis a bu'r ddau'n byw ym Methesda am gyfnod cyn symud i 32 Ffordd Penrhos, Bangor. Dyna lle ymgartrefodd y ddau ac erbyn hynny, roedd John wedi cael swydd yn y Coleg Normal ym Mangor. Rhoddodd Bet y gorau i'w gwaith yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Ganwyd Gwyn yn 1960. Roedd Bet a John wedi penderfynu ar Robin fel enw petai'n hogyn, ond roedd gan y babi bach lond pen o wallt coch, felly newidiwyd yr enw'n reit handi i Gwyn! Pan oedd Gwyn yn fabi, arferai Bet sychu clytiau'r babi bach ar y Rayburn ac un diwrnod cofiadwy cafwyd tipyn o banig pan aeth y dillad ar dân, ac roedd yn rhaid galw'r frigad dân. Cafwyd gwared ar y Rayburn yn syth!

Er iddi basio ei phrawf gyrru, ychydig yn nerfus oedd Bet fel gyrrwr ac aeth pethau'n waeth ar ôl siwrnai i Lanberis mewn Morris Minor pan oedd Gwyn tua phump oed. Wrth droad Nant y Garth, disgynnodd Gwyn, oedd yn sefyll yn y cefn, rhwng y ddwy set flaen a mynd yn sownd ar ben y brêc a'r gêrs. Does gan Gwyn ddim cof iddi ddreifio ar ôl hynny. Cariodd Bet ymlaen i ddysgu'n achlysurol yn y Cwfaint ym Mangor ac mae gan Gwyn gof o orfod mynd efo'i fam yn ystod ei wyliau ac eistedd yng nghefn y dosbarth. Bu Bet hefyd yn gweithio yn y Coleg Technegol a chynnal dosbarthiadau nos gwnïo yno.

Ar ôl symud i Fangor daeth Bet a John yn aelodau ffyddlon yng Nghapel Pendref, a Bet yn ddiweddarach yn Emaus. Mae'r Parchedig John Gwilym Jones yn cofio treulio'r Sul y daeth ar brawf i Bendref ar aelwyd Bet a John, ac am eu ffyddlondeb i'r eglwys a'u cefnogaeth gyson iddo fel gweinidog dros y blynyddoedd. Mae ef hefyd yn cofio, os oedd angen cacennau i unrhyw ddigwyddiad, y byddai Bet wrth ei bodd yn coginio. Mae gan ffrindiau Pendref ac Emaus atgofion hapus o Bet a byddant yn gweld ei cholli'n fawr. Mae Valerie Ellis, cymdoges i Bet a John Eirug, yn cofio mor garedig y bu'r ddau wrthi wedi iddi hi ddod i fyw i Bryn Adda.

Doedd Bet a John ddim yn rhai mawr am fynd ar wyliau tramor, er iddyn nhw ddreifio i Awstria un gwyliau haf, a bu John yn Rwsia ganol y chwedegau. Yn amlach na pheidio, roedden nhw'n hoffi tripiau i Lundain gan fynd i'r theatr a chael blas ar y ddinas fawr, a thripiau byr i ardaloedd eraill yn Lloegr a'r Alban.

Roeddynt hefyd yn mwynhau teithiau ac ymweliadau gyda Chymdeithas Cynddarlithwyr y Coleg Normal.

Yn 32 Ffordd Penrhos y bu'r ddau am bron i hanner canrif nes iddynt symud i Fryn Adda yn y flwyddyn 2000. Buan iawn yr ymgartrefodd y ddau yno a gwneud ffrindiau da efo'r cymdogion, a John yn dosbarthu papur bro'r Goriad.

Roedd y cymodogion yma'n ofalus iawn o'r ddau fel roedden nhw'n mynd yn hŷn. Roedd yr ardd yn Ffordd Penrhos ac ym Mryn Adda yn ddileit i'r ddau ac yn werth ei gweld bob amser. Er mai'r bwriad oedd symud i dŷ efo gardd lai, roedd gardd Bryn Adda cymaint os nad yn fwy. Bu'r ddau yn ddiwyd hefyd yng ngardd Gwyn a Branwen yn rhoi trefn ar dipyn o flerwch oedd yno.

Roedd y flwyddyn 2000 yn flwyddyn fawr i Bet a John am reswm arall hefyd, gan y ganwyd eu hŵyr Gruffydd, digwyddiad a roddodd egni o'r newydd i'r ddau. Roedden nhw'n gwarchod Gruffydd o'i fabandod, ac yn ddiweddarach âi yno am ei de ar ôl ysgol gynradd bob dydd. A dyna wledd roedd o'n ei chael gan Bet, brechdanau a chacennau amrywiol, a'r ŵyr bach yn bwyta llond ei fol ac yn mwynhau, cymaint felly fel ei fod yn cael trafferth bwyta ei swper pan âi adra. Gan Bet roedd y pastry gorau erioed a fyddai'n toddi yn eich ceg. Roedd yn feistr ar wneud rôls, quiches, cacennau, sgons, cinio dydd Sul a theisen felys. Roedd Bet yn wniadwraig fedrus hefyd, ac yn gwnïo ei dillad ei hun, a'r holl lenni oedd yn y tŷ. Roedd rhaid arallgyfeirio yn nes ymlaen, er mwyn gwnïo dillad "gwisgo'i fyny" i Gruffydd, megis gwisg Robin Hood a chowboi.

Bu farw John yn 2012 ac roedd hon yn ergyd drom i Bet a'r teulu, ond roedd cwmpeini Gruffydd ar ôl ysgol yn gyson yn codi ei chalon. Roedd Bet yn ddynes annibynnol iawn ac yn anfoddog i dderbyn unrhyw gymorth o gwmpas y tŷ. Roedd yn benderfynol o aros i fyw yn ei thŷ cyhyd ag y medrai. Rhyw ychydig flynyddoedd yn ôl, dirywiodd iechyd Bet a gorfu iddi symud i fyw i gartref Plas Hedd. Cafodd ofal rhagorol yno, ac ennill pwysau nes i'w dillad fynd ychydig bach yn dynn iddi. All y teulu ddim ond canmol y gofal a gafodd yno. Am gyfnod bu criw o Emaus yn ymweld â chartref Plas Hedd unwaith bob tymor a byddem bob amser yn cael croeso a sgwrs gyda Bet a fyddai wrth ei bodd yn ymuno yn yr emynau.


Yn anffodus, bu'r ddwy flynedd olaf yma'n heriol, yn enwedig i bobl mewn cartrefi gofal a'u teuluoedd. Bu Gwyn a'r teulu'n cadw cysylltiad ffyddlon gyda Bet drwy'r cyfnod anodd yma, ac rwy'n siwr ei bod hi'n hollol ymwybodol o'u cariad yn lapio amdani hyd yn oed pan nad oedd modd iddynt fod yn yr un ystafell. Bu'r staff yn gofalu'n dyner ac yn ffyddlon amdani pan na fedrai'r teulu fod yno oherwydd y cyfyngiadau, a buom yn gweddïo drosti fel eglwys. Diolch am wraig arbennig a gafodd oes hir a llawn, a diolch am bopeth a olygai ac y bydd yn parhau i olygu i'w theulu ac i'w ffrindiau. Gafaelwn yn sicrwydd y gobaith bod Bet bellach yn ddiogel ym mreichiau Duw ac yng nghwmni Crist a'r rhai annwyl a aeth o'i blaen.

*( Rwyf yn ddiolchgar iawn i Gwyn a Branwen am gael rhannu crynodeb o'r deyrnged hyfryd a baratowyd ganddynt ac am y cyfle i wau rhai sylwadau ychwanegol i mewn.*
*- Casi M Jones )*

# RHODD ARBENNIG

Cefais alwad ffôn annisgwyl ychydig wythnosau'n ôl. Llais nad oeddwn wedi ei glywed ers dros hanner can mlynedd oedd ar y pen arall. '*Anita Hughes sydd yma*' meddai. Yr oeddwn yn cofio Anita'n dda, yn un o griw fy chwaer Lowri yn y Coleg yn Aberystwyth, ac yn un a fagwyd yn fy mhentref genedigol innau, sef Aberaman, Aberdâr. Yr oeddem hefyd wedi bod yn mynychu'r un Ysgol Sul â'n gilydd, yn Saron yn y pentref. Galw yr oedd Anita i holi am fy nghyfeiriad, ar ran ffrindiau iddi, sef Des a Helen Davies. Yr oedd hi bellach wedi ymddeol ac yn byw yn Sir Benfro, yn ymyl Des a Helen. Yr oedd Des yntau'n gyn-gydfyfyriwr i ni, yn un o griw da o fyfyrwyr o ogledd Sir Benfro a oedd yn Aberystwyth ar y pryd.

Holi yr oedd Des am fy nghyfeiriad er mwyn anfon llyfr arbennig ataf, llyfr a fu yn eiddo i un o lenorion pwysicaf yr ugeinfed ganrif a chenedlaetholwr amlwg, sef D.J.Williams, Abergwaun. Yr oedd y rhan fwyaf o lyfrau D.J. wedi mynd i'r Llyfrgell Genedlaethol ar ôl ei farw, ond dosbarthwyd rhai ymhlith ei gyfeillion, a thad Helen yn eu plith. Wedi i'r llyfr ddod i'w meddiant hwy, gwelsant yr arysgif hon yn llawysgrifen D.J.


Prynwyd yn Siop y Castell
Caerdydd, ddydd priodas
Trefor Morgan a Gwyneth
Evans, Medi 18fed 1943.
DJWilliams.

Gwyddwn wrth gwrs fod fy nhad yn gyfaill i D.J. a 'Bopa Siân' (fel y galwai Mrs Williams) oddi ar ei ddyddiau yn Sir Benfro. Aethai i'r ardal honno i chwilio am waith yn nyddiau'r dirwasgiad yn y Cymoedd, a chael yno groeso bob amser ar aelwyd y **'Bristol Trader'**, sef cartref y ddau. Ni wyddwn er hynny fod D.J., a Bopa Siân mae'n debyg, wedi bod yn bresennol ym mhriodas fy rhieni. Priododd y ddau yn y Tabernacl yng Nghaerdydd yn hytrach nag yn Aberdâr am eu bod ar y pryd yn mynychu'r eglwys honno. Ar ei ymweliad â Chaerdydd aeth D.J. am dro i **'Siop Beti Rhys'** fel y gelwid hi, siop a oedd yn gyrchfan pwysig yn ei ddydd i Gymry'r ddinas. Mae gennyf gof plentyn am y siop, yn ei lleoliad ger y **'Duke Street Arcade'**, gyferbyn â muriau'r castell.




A'r llyfr? Casgliad ydyw o straeon byrion gan yr awdur o Aberdâr, Alun Lewis, dan y teitl **'The Last Inspection'**. A D.J. ei hun yn feistr ar y stori fer, 'does ryfedd iddo brynu copi o'r llyfr hwn gan un o lenorion Saesneg amlycaf yr Ail Ryfel Byd. Newydd ymddangos yr oedd y casgliad, a'r straeon sydd ynddo yn drymlwythog o ddiflastod ac anhapusrwydd milwyr mewn gwersyll ar eu ffordd i faes y gad. Y flwyddyn ganlynol, 1944, yr oedd Alun Lewis ei hun yn gwasanaethu yn Burma ac y mae'r llyfr, i raddau, yn rhagfynegi ei ddiwedd ef. Wedi ei lethu gan bwysau'r rhyfel ar feddwl ac ysbryd, bu farw mewn 'damwain' gyda dryll.



Yr oedd Alun Lewis yn perthyn i'r un genhedlaeth â'm mam yn Aberdâr, ac yr oedd hi yn ei adnabod yn iawn o ran ei weld.

Rai blynyddoedd wedyn, daeth i adnabod ei weddw, Gweno, yn dda gan eu bod ill dwy ar staff Ysgol Ramadeg Aberpennar. Cymraes Gymraeg o Geredigion oedd hi, ac mae'n anodd gennyf gredu nad oedd Alun Lewis yntau yn medru tipyn o Gymraeg, er mai yn Saesneg yr ysgrifennai. Yr oedd yn nai, fab brawd i'r ysgolhaig Timothy Lewis, a oedd ar staff Adran Gymraeg Aberystwyth.



Mae pytiau o hanes bywyd fy rhieni ynghlwm â'r llyfr felly, ac 'roeddwn yn hynod falch o'i gael yn rhodd.

Tynnwyd y llun hwn o fy mam yng nghwmni D.J. a Bopa Siân pan oedd ar ymweliad ag Abergwaun ar ddechrau'r chwedegau. Yr oedd hi yno ar wibdaith gydag aelodau'r dosbarth Llenyddiaeth Gymraeg yr oedd hi yn ei ddysgu ym mhentref Hirwaun, Aberdâr ar y pryd.

*Branwen Jarvis*

## OEDFAON A CHYFARFODYDD MAI

*Bydd pob oedfa yn y capel a dros Zoom yn y ffordd arferol.*
*Anogir pawb sy'n dod i'r capel i gymryd gofal priodol*
*gan fod Covid-19 yn parhau i'n bygwth.*

| | | |
|---|---|---|
| **1 Mai** | : | Oedfa gymun |
| **7 Mai** | : | **Masnach Deg** a **Bore Coffi** o 10 tan hanner dydd |
| **8 Mai** | : | Manylion i'w cadarnhau |
| **15 Mai** | : | Y Parchedig Gwyndaf Jones |
| **17 Mai** | : | Cyfarfod **'paned a sgwrs'** rhwng 3 a 4 |
| **22 Mai** | : | Manylion i'w cadarnhau |
| **29 Mai** | : | Y Parchedig Eric Jones |

*Gall y trefniadau newid ar fyr rybudd yn sgil unrhyw newid yn y rheoliadau.*

## Y GENHADAETH

Mae'n braf gallu adrodd unwaith eto am haelioni aelodau Emaus. Y tro yma, gallaf nodi fod siec am £1123.00 wedi ei anfon at y BMS. Hwn yw'r casgliad blynyddol sydd yn deillio o agor y blychau a chasgliad yn dilyn gwasanaeth blynyddol gan Dr Menna Machreth.

Oherwydd clefyd y *Cofid*, bu'n rhaid gohirio ei hymweliad hi, ond agorwyd y blychau a'r casgliad yn dilyn cyfraniad gwerthfawr iawn gan Casi, ein gweinidog, am waith y BMS yn yr oedfa genhadol fis Mawrth.

Bydd £1000 yn mynd at waith cyffredinol y gymdeithas gyda 10% yn mynd yn uniongyrchol at Apel Wcráin. Mae gan y BMS gysylltiadau yng ngwlad Pwyl a byddant yn gallu trosglwyddo arian yn syth i Wcráin cyn gynted a bo modd. Gan fod nifer wedi trefnu rhodd gymorth, bydd hyn yn ychwanegu dros £150 at y cyfanswm.

Ardderchog iawn a diolch i bawb am yr ymdrech yn ystod cyfnod heriol yma pan mae galw am gyfraniadau o bob cyfeiriad.

*Sian Arwel*

## STAMPIAU



Daeth cnwd da iawn o stampiau i law a bydd pecyn 629gm yn cael ei anfon i'r BMS cyn daw'r rhifyn yma o'r wasg!! Diolch diffuant iawn am y casglu, y paratoi a'r didoli wnaethpwyd cyn eu trosglwyddo i'r eglwys. Roedd stampiau diddorol iawn yn cynnwys rhai yn yr hen arian – 1d, 7d a llawer mwy. Synnwn i ddim nad oes trysorau gwerthfawr yn eu mysg. Cafwyd arian tramor hefyd a mawr ddiolch am hynny hefyd.

Mewn gwerthfawrogiad

Sian Arwel

Pobl i Bobl

Cefnogi Ffoaduriaid

*Annwyl aelodau*
*a ffrindiau Emaus,*

*Hoffem ddiolch unwaith yn rhagor i chwi oll am ymateb mor gadarnhaol i'n hapêl ddiweddaraf ar gyfer pobl Wcráin.*

*Gwerthfawrogir eich caredigwydd gan* **Dîm Adsefydlu Ffoaduriaid Gwynedd** *hefyd - maent yn ddiolchgar iawn am bob cefnogaeth.*


*Rydych wastad mor barod eich cymwynas a diolchwn i chi am eich haelioni.*

*Cofion cynnes,*
*Esyllt Bryn (ar ran pwyllgor Pobl i Bobl)*













**Gweledigaeth y Cenhedloedd Unedig yw annog cydweithrediad heddychlon rhwng gwledydd y byd. Mae'r corff ymhell o fod yn berffaith ond mae argyfwng trigolion Wcráin yn tanlinellu ei bwysigrwydd. Taenwyd baneri'r byd, gan gynnwys y Ddraig Goch, o flaen Emaus fel arwydd o'n dyhead am heddwch ochr yn ochr â gwledydd eraill.**

# ATGOFION

*Dyma erthygl lle mae Valerie Ellis yn dwyn i gof rhai o'r newidiadau a welodd yn ei bywyd.*
*( Parhad o'r erthygl yn Negesydd Ebrill )*

Roedd Dr Parry Williams yn gallu bod yn bur anghofus, ond byddai'n cofio pethau pwysig fel pryd oedd rhyw waith cartref arbennig i fod i mewn! Byddwn yn cael gwahoddiad i Fryn Deiniol, ei gartref ef a Mrs Williams, yn bur aml. Un tro, ar ddiwedd darlith, meddai'r athro, "*Dowch draw i de dydd Iau.*" Pan ddaeth dydd Iau, roeddwn bron gant y gant yn sicr y byddai wedi anghofio'r cwbl am y gwahoddiad, ond roedd yn well i mi fynd rhag ofn y byddai wedi cofio. Byddwn wedi bod yn anfoesgar tu hwnt yn peidio â mynd wedyn oni fyddwn? Cenais gloch y drws yn betrusgar a daeth Dr Parry Williams i'r drws. "O, Valerie," meddai, "*Be fedra i ei wneud i chi?*" Eglurais fy mod wedi cael fy ngwadd i de, ond y buaswn yn hapus i ddod ar ddiwrnod arall. "O," meddai yntau, "*Mi wna i de i chi*," a chwarae teg, dyna a wnaeth er na chofiaf fanylion am yr ymborth. Roedd ei sgwrs yn ddiddorol bob tro. Dywedodd wrthyf rywbryd ei fod wedi dod i'r brig mewn cystadleuaeth gyfansoddi, ac wedi trechu Grace Williams, oedd yn gyfansoddwraig enwog wrth gwrs. Roedd ei falchder bachgennaidd yn gymysg â'i wyleidd-dra yn annwyl tu hwnt.

Roedd gan Dr Parry Williams a'r teulu gi bach, daeargi Efrog (*Yorkshire terrier*), un ffyddlon iawn. Roedd ei berchennog yn teimlo'n wirion meddai yn cerdded ar hyd Ffordd y Coleg efo ci mor fach ar dennyn. Un tro, Roedd Dr a Mrs Parry Williams a minnau yn cael swper ym Mryn Deiniol a gŵr y tŷ yn dawel iawn. Deuthum i ddeall bod eu merch Ann newydd dorri ei swrn ('ffêr' ddywedwn i) wrth chwarae tennis. Ann oedd eu hunig blentyn, ac roedd hi'n astudio i fod yn feddyg yn Lerpwl. "*Falle na fedr hi byth gerdded eto*," meddai ei thad. Mrs Williams a minnau'n hollol ddistaw. Ar y pryd, wyddwn i ddim beth oedd 'swrn'. Torrais innau fy ffêr hefyd yn fy saithdegau - toriad drwg iawn yn ôl y meddygon, ond stori arall ydi honno.

Bu Dr Parry Williams yn fy nghartref ym Mynytho fwy nag unwaith. Daeth draw unwaith gyda John Hughes y cerddor, wedi i'r ddau fod mewn pwyllgor ym Mhwllheli yn ymwneud ag Eisteddfod Genedlaethol 1955. Yr oedd y ddau wrth eu boddau acw a chafwyd croeso twymgalon gan fy nheulu. Yr oeddwn wedi cael addewid o lifft yn ôl i Fangor gan fy athro. Wedi i'r ddau ohonom gyrraedd Bangor, gyrrodd Dr Parry Williams ymlaen i ganol y dref yn lle troi am Penchwintan lle'r oeddwn i'n lletya. Stopiodd fy athro y car o flaen y Swyddfa Bost (y 'General' bryd hynny) y drws nesaf i'r llyfrgell, a thynnu o'i boced gerdyn post plaen wedi ei stampio'n barod. "*Sgwennwch ar hwn nawr*," meddai, "*I ddweud eich bod wedi cyrraedd yn ôl yn saff.*" Un felly oedd o, gofalus a chydwybodol.

Yng Nghapel y Tabernacl un nos Sul, roedd Dr Parry Williams yn eistedd yr ochr arall i'r capel i'm ffrind a minnau, ac ychydig yn is i lawr. Yn ystod y casgliad, gwelwn ef yn codi o'i le ac yn ymlwybro tuag atom. "Oes gennych chi gasgliad?" gofynnodd inni. "Oes, diolch," meddai'r ddwy ohonom. Bu'n rhaid imi ddangos fy mhishyn chwe cheiniog gwyn iddo cyn iddo fod yn gwbl fodlon.

Bu Dr Parry Williams yn daer yn ceisio fy nghael i aros ymlaen i weithio yn yr adran Gerdd. "*Byddwch yn DMus cyn bod yn saith ar hugain*," meddai. Roedd yn demtasiwn, ond roedd fy ffrindiau wedi gadael Bangor erbyn hynny, a minnau wedi cael digon ar waith academaidd am y tro. Roedd Pen Llŷn yn galw, a swydd athrawes Gerdd yn mynd yn Ysgol Botwnnog, fy hen ysgol. Syrthiodd pethau i'w lle, ond mae arnaf ofn fy mod wedi siomi'r Doethur eilwaith.

Cefais wahoddiad i barti penblwydd Dr Parry Williams yn 90 oed. Yn anffodus i mi, roedd yr achlysur yng Nghaerdydd ac ar ddiwrnod ysgol, a byddai'n golygu colli dau ddiwrnod o waith. Doedd hi felly ddim yn bosib i mi fynd, a bu raid gwrthod yn gwrtais. Sylweddolais ymhen amser mai parti bach oedd o, i'r teulu ac ychydig o ffrindiau. Roeddwn yn freintiedig iawn o gael y fath wahoddiad, ac rydw i'n werthfawrogol iawn hyd heddiw.
Priododd Ann a chael tair merch ei hun. Roedd Bethan, un o wyresau Ann, felly gor-wyres Dr Parry Wiiliams, yn gyd-ddisgybl a ffrind i fy ŵyr hynaf, Ifan, trwy ei yrfa ysgol yng Nghaerdydd. Dyna gyd-ddigwyddiad hapus. Mae cysylltiadau ym mhobman onid oes? Roedd Ann a minnau wedi sôn am gyfarfod ein gilydd yng Nghaerdydd ryw dro, ond ddigwyddodd hynny ddim gan i Ann farw'n bur ddisymwth. Trist iawn. Roeddwn wedi gobeithio dod i'w hadnabod yn well.
Roedd Dr Parry Williams yn un o'r goreuon yn wir. Personoliaeth onest, gywir a charedig. Bu'n fraint cael fy nysgu ganddo a'i adnabod

*Valerie Ellis*

## BLODAU

*Diolch i*
*Glenda Roberts ac Alison Carden*
*am roi'r blodau ddiwedd Mawrth*
*a dechrau Ebrill.*

**Ebrill 17eg a 24ain : Sian Arwel Davies**

**Mai 1af, 8fed a'r 15fed : Iona Wyn Jones**

**Mai 22ain a 29ain : Cathrin Williams**

Diolch i bawb sydd wedi rhoi, neu cynnig rhoi blodau, ond fe fyddwn yn falch o dderbyn rhagor o enwau yn enwedig ar gyfer mis Mehefin a Gorffennaf.
Rhowch wybod os oes dyddiad arbennig hoffech roi blodau.

Meriel,

**01248 352205** neu **merielparry@gmail.com**




## NODYN GOLYGYDDOL

Hoffwn ddiolch o galon am y cydweithrediad yn dod â'r rhifyn hwn i fwcwl. Gan fod gwyliau'r Pasg yn disgyn ar y trydydd Sul, (a minnau i ffwrdd am y penwythnos), roedd cwtogi ar yr amser i gasglu deunydd. Rwy'n hynod werthfawrogol am ufuddod pawb yn anfon pytiau o newyddion difyr mewn da bryd, a diolch o galon hefyd i Eirwyn a Branwen am fod mor barod i ganiatau diwrnod ychwanegol o ras!

*Sian Arwel*




## ATEB I BOS EBRILL 2022
## POS WYAU PASG

**Bwytodd Amr 14 wy Pasg.**

## POS MAI 2022

### POS WYAU WCRÁIN

*Mae deuddeg dwsin o wyau Pasg hyfryd o'r Wcráin yn cael eu pacio mewn bocsys o dri neu bedwar wy yr un. Mae nifer y bocsys pedwar wy un yn fwy na nifer y bocsys tri wy. Sawl bocs sydd i gyd?*



**Bydd yr ateb yn rhifyn Mehefin.**

## ENWEBIAD AM WOBR




Bydd y rhai hynny ohonoch sy'n gwylio'r rhaglen Heno ar S4C wedi gweld yn ddiweddar gyfweliad Dafydd Wyn gyda Llinos Davies, merch Meriel a Wil Parry. Mae Llinos yn bennaeth ar Ysgol Esceifiog, Y Gaerwen, Sir Fôn, ac 'roedd hi ac un o'i chydathrawesau yn egluro pam yr oedd hi, ar ran yr ysgol, wedi derbyn enwebiad ar gyfer un o wobrau pwysig Dewi Sant. Roedd y ddwy yn bresennol yn y cyfarfod gwobrwyo yng Nghaerdydd. Cafodd staff yr ysgol eu henwebu am eu hymdrechion diflino i gefnogi un o ddisgyblion ifanc yr ysgol a'i theulu, a'r ferch fach yn dioddef o dyfiant ar yr ymennydd. Llongyfarchiadau calonnog i Llinos a'i staff am eu caredigrwydd a'u hymroddiad.


*Branwen*

## YSGOLORAETH



Llongyfarchiadau i Morgan Owen ar ennill ysgoloriaeth i dreulio deg wythnos ym Mhatagonia dros yr haf. Bydd Morgan yn cymryd rhan yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Wladfa ac yn helpu gyda dosbarthiadau Cymraeg ymysg pethau eraill. Rhoir yr ysgoloriaeth gan Brifysgol Caerdydd, lle mae Morgan yn fyfyriwr, a'r Cyngor Prydeinig. Dymuniadau gorau iti, Morgan. Edrychwn ymlaen at gael yr hanes.

# CYNGERDD CÔR SEIRIOL A CHYFEILLION




Roedd Côr Seiriol yn dathlu'r deg ar hugain llynedd, ond am resymau amlwg ac ymarferol, penderfynwyd gohirio'r cyngerdd dathlu a'i gynnal eleni. Y dyddiad, yr amser a'r lleoliad? . . . Nos Sadwrn, Mai 14eg am 7.30 y.h. yn Theatr Bryn Terfel, Pontio. Mae yna hen edrych ymlaen i gael rhannu'r noson gyda nifer o gyfeillion, gan gynnwys Côr y Brythoniaid o dan arweiniad medrus John Eifion Jones. Ymunodd Côr Seiriol â'r Brythoniaid i ffurfio Côr Llechan Lân er mwyn cystadlu'n Eisteddfod Genedlaethol Sir Conwy, 2019 a bu'n brofiad hwyliog a chofiadwy.

Ein hunawdwyr gwadd fydd Alys Mererid Roberts a Meilir Jones. Mae Alys yn soprano ddisglair o Roslan, yn wreiddiol, sy'n gwneud enw arbennig iddi ei hun ym myd y canu opera. Daw Meilir, y bas-bariton o Langefni ac mae'n dilyn gyrfa lwyddiannus wrth berfformio'n helaeth ar lwyfannau ym Mhrydain a thu hwnt ers iddo raddio o'r Academi Frenhinol yn Llundain. Braf fydd cael cwmni tri chyfeilydd penigamp yn ystod y noson, sef Mona Meirion, Dylan Cernyw ac Angharad Wyn Jones. Bydd y dasg o gyflwyno'r artistiaid yn nwylo medrus Elliw Mai, llais a wyneb cyfarwydd ar y cyfryngau - a merch Donna Hughes, aelod o Gôr Seiriol ers y dechrau.

*Gobeithio y gallwch ddod draw i Pontio er mwyn ymuno'n y dathlu ac i fwynhau cerddoriaeth 'fyw' unwaith yn rhagor. Fe fydd croeso cynnes yn eich disgwyl.*

*Eleri Richards*




## Y FERCH A'R PASG

Bu cyfle arall eleni i wrando ar raglen a ddarlledwyd ar Radio Cymru, Sul y Pasg llynedd, sef *'Y Ferch a'r Pasg'*.
Dyma raglen sydd yn wead o'r traddodiadol a'r cyfoes ac sy'n ymdrin â rôl y ferch yn stori'r Pasg, gyda chyfraniadau gan Casi Wyn, Mared Williams, Manon Steffan Ros a Chôr Seiriol.

# FY HOFF EMYN

Mae gennyf sawl ffefryn ymhlith yr emynau yng Nghaneuon Ffydd, rhai yn weddol drist eu naws, eraill yn fwy calonnog. Fy newis yw un sy'n mynegi diolch a mawl - *Rhif 140 Caneuon Ffydd* - **"Mor fawr wyt Ti"**.




Yng nghanol yr holl dristwch a'r dioddef yn ein byd ni heddiw, mae'n bwysig inni ddiolch a moli mawredd Duw yn creu'r bydysawd rhyfeddol i ni ei fwynhau - hyfrydwch byd natur a rhyfeddodau'r ffurfafen. Gwaetha'r modd, drwy ein ffordd ni o fyw, 'rydym yn difetha llawer ohono - yn gwenwyno'r afonydd a'r môr ac yn achosi difrod i'n coedwigoedd ac i anifeiliaid gwyllt. Mae'n bwysig inni warchod rhain ar frys.



Ond rhodd fwyaf Duw i ni yw ei Fab a ddioddefodd ar y groes a rhoi ei fywyd drosom er mwyn i ni gael byw. Ar ddiwedd oes cawn gwmni Iesu yn y nefoedd a'i foli'n dragywydd. Mae'r modd mae'r bardd wedi llunio'r gerdd yn gelfydd a cheir uchafbwynt gwych i'r emyn. Mae'r ddau bennill cyntaf yn son am greu'r byd a phrydferthwch natur, y trydydd am aberth Crist ar y groes trosom ni, a'r pennill olaf am gwrdd â Christ ac etifeddu bywyd tragwyddol. Emyn o fawl yn wir.

Ysgrifennwyd y gerdd yn yr iaith Swedeg yn wreiddiol, yna cyfieithwyd hi i'r Saesneg ac yna i'r Gymraeg gan E.H.Griffiths *(dim perthynas!)*

Petai rhywun yn gofyn imi am fy hoff emyn yn cynnwys y geiriau â'r dôn, yr ateb yn bendant fyddai y dôn **"Blaenwern"** ar eiriau Williams Pantycelyn **"O llefara addfwyn Iesu."** Mae'r dôn yn adlewyrchu'r geiriau yn berffaith yn enwedig yn y pennill cyntaf - dechrau tawel i'r ddwy linell gyntaf ac yna y gerddoriaeth yn codi'n uwch ar y geiriau **"Mae holl leisiau'r greadigaeth"** cyn gostwng eto ar y geiriau **"mynd yn fud"**.

Rwy'n arbennig o hoff o donau grymus mewn cynghanedd da - dyma gryfder y tonau Cymreig gorau. 'Does dim byd tebyg i ganu cadarn mewn pedwar llais - S.A.T.B. - rhywbeth oedd yn gyffredin iawn yn ein capeli flynyddoedd yn ôl.

Hoff dôn mam oedd **"In Memoriam"** - **"Arglwydd Iesu arwain f'enaid"** - tôn rymus arall tra'roedd fy nhad yn hoff o **"Rho im yr hedd"** ar y dôn **Rhys** a'r dôn **Wareham** ar y geiriau **"Yr afon a lifodd rhwng nefoedd a llawr"**.

*Enid Griffiths*

TRAIDCRAFT

## Cynhelir bore coffi a siop Traidcraft bore Sadwrn Mai 7fed o 10 - 12 o'r gloch.

*Ni fydd y canllawiau'n newid y tro yma,*
*felly bydd angen gwisgo masgiau, cadw pellter*
*a dod â'ch cwpan os gwelwch yn dda*

*Catrin*

Fis Mai llynedd rhoddais grynodeb o weithgareddau Ysgol Sul y plant a'r bobl ifanc, gan nodi wrth gloi ein bod yn edrych ymlaen at fod dan yr un to rywbryd. Mae'r dyhead hwn yn parhau ond yn y cyfamser rydym wedi addasu.

Er bod sefyllfa'r pandemig yn raddol wella, mae llawer mwy o oedolion, pobl ifanc a phlant ein hardal wedi cael y Covid. Diolch byth am y brechlyn ac ar y cyfan dydy'r haint ddim wedi taro rhywun mor ddrwg, ond mae wedi bod yn rhwystr i'r Ysgol Sul oherwydd yr hunan ynysu anochel sy'n creu anhawster o ran cynnal gweithgareddau. Beth bynnag, dan arweiniad cadarn Casi rydym wedi dyfalbarhau ac wedi llwyddo i gael rhai cyfarfodydd cofiadwy.

Yn ogystal ag ambell sesiwn Ysgol Sul ar Zoom, fe wnaethom fentro allan i'r awyr iach. Sylweddolodd Casi fanteision defnyddio gazebo / marcî mini er mwyn i ni allu cynnal gweithgaredd tu allan i Emaus. "Marcî Maes E" y galwodd hi'r lloches (ynganer y llythyren E yn Saesneg er mwyn yr odl!). Mae hanes a lluniau ohonom yn dod at ein gilydd wedi ymddangos eisoes yn 'Y Negesydd'.

Fe ddechreuon ni yn yr ardd gyda Llinos Roberts, Cymorth Cristnogol, yn ein harwain. Cawsom gyfle i ddathlu'r crëad a'n hamgylchedd, a meddwl am warchod ein planed.

Apeliodd y syniad o gael Capsiwl Amser i gofio am y cyfnod clo, a bu cryn drafod ynglŷn â beth i'w roi yn y capsiwl ar gyfer y dyfodol, gan geisio cynnwys pob math o bethau a fyddai'n adlewyrchiad o'r ddwy flynedd ddiwethaf.

Ar ôl seibiant dros wyliau'r haf a chyfarfod yn y Marcî ddechrau Medi, trefnwyd diwrnod yn y Gelli Gyffwrdd. Roedd yn dywydd sych a phawb wedi mwynhau y cyfle i fynd o amgylch y safle – hyn wedi i ni gael gwasanaeth byr a thipyn o ginio neu bicnic.

Yn ôl eu harfer fe wnaeth aelodau'r Ysgol Sul eu gwaith yn raenus a chanmoladwy yn eu Gwasanaeth Diolchgarwch fis Hydref. Y thema oedd 'Sul yr Hinsawdd'. Roeddem i gyd wedi mwynhau gweld y plant a'r bobl ifanc yn gwneud eu rhan a diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Cawsom siom ein bod wedi gorfod canslo'r daith **"Pum Llith a Charol"** o amgylch Bangor ganol Rhagfyr, ac nid oherwydd tywydd garw, ond oherwydd bod nifer yn ynysu neu'n disgwyl canlyniad PCR.

Ar gyfer y Nadolig, rhoddwyd bocs gweithgareddau'r Adfent i'r teuluoedd ac, er nad oedd parti, daeth Siôn Corn tu allan i Emaus gydag anrhegion un bore Sadwrn. Roedd o'n rhadlon braf wrth ei waith. Bu hefyd wasanaeth Nadolig ar Zoom i ni fel Ysgol Sul, i gloi ein cyfarfodydd am y tymor.

Mae yna wasanaethau teuluol wedi eu cynnal yn y capel gydag aelodau yn ymuno â ni ar Zoom ar yr un pryd. Yn y gwasanaeth arbennig '**Diolch, Cofio a Gobeithio**' ddiwedd Hydref y cuddiwyd y Capsiwl Amser yn atig Emaus, i'w agor Hydref 2030.

Bydd llawer i'w gofio ac i'w werthfawrogi i bawb fydd yn edrych trwy gynnwys y capsiwl. Dwi'n siwr y bydd plant a phobl ifanc heddiw yn eu plith (ac yn hŷn erbyn hynny wrth gwrs!). Daw atgofion lu am eu hamser yn Ysgol Sul Emaus.

*Glenda*

## ANN A GARETH ROBERTS WRTH EU BODD YN RHANNU'R PROFIAD A'R WEFR O FOD YNG NGHANOL Y MYNYDDOEDD

### CYFFRO'R CRWYDRO

Ers inni gyfarfod am y tro cyntaf - yn ein harddegau yn Ysgol Sul Penuel - bu crwydro'r mynyddoedd yng nghwmni'n gilydd a ffrindiau yn rhan bwysig o'n bywydau. Roedd Gareth wedi hen arfer mynydda a dringo copaon Eryri - ac iddo fo mae'r diolch am fy nghyflwyno i fyd hollol newydd a chyfareddol - ac i GYFRINACH MOEL EILIO! Gareth sy'n cael y gair cyntaf :

Rydwi wedi cael pleser di-ben-draw yn crwydro a dringo copaon Eryri ers dyddiau bachgendod.Mae taith i ben MOEL EILIO yn fy nghyffroi bob amser.

Saif MOEL EILIO rhwng  Nant Peris a Llyn Cwellyn gyda'i odrau yn cadw pentref Llanberis ar yr un ochr, ar wahan i bentref Waunfawr ar yr ochr arall. Mae modd cychwyn ar y daith o sawl cyfeiriad ond yr un mwyaf poblogaidd bellach ydy'r un o'r hen chwarel nid yn nepell o Waunfawr. Flynyddoedd yn ôl, pan ddechreuais fynydda, prin oedd golwg o lwybr yno. Bellach, efo cymaint o dramwyo, mae na lwybr llydan gweladwy i'r cerddwyr. Mae o'n esgyn yn weddol serth! Mae'n cymryd rhyw awr neu fwy i gyrraedd y copa. Y fath olygfa! Bydd yn  siwr o aros yn y cof

Cewch syllu ar yr Wyddfa a'i chriw - cefn y Glyderau, Elidir Fawr, Y Carneddau, Mynydd Mawr, Moel Hebog, i lawr i'r Canolbarth ac i lawr ar hyd Penrhyn Llŷn tuag at yr Iwerddon. Ond beth am Sir Fôn?  Wel dyma i chi gyfrinach Moel Eilio.

Yn yr ysgol, ers talwm, cyffelybai'r athro siap Cymru ar fap i siap hen wreigan a sach ar ei chefn. Sir Fôn oedd ei phen, siroedd Fflint a Dinbych ei sach, Penrhyn Llŷn ei braich estynedig, gweddill y tir mawr ei chorff ac yna, mynnai'r athro bod ei thraed yn y mor o gwmpas Penrhyn Gwyr. Yn wir, gellwch weld rhannau o Ynys Môn o ben nifer o gopaon Eryri ond ellwch chi fyth weld pen yr hen wreigan yn gyfan fel y'i dangosir ar fap. Yr unig fynyddoedd sy'n cynnig y profiad unigryw yma o weld pen yr hen wreigan yn gyfan ydy copa Moel Eilio! O sefyll yno mae modd gweld pob twll a chornel o Ynys Mon!

Yna, wedi oedi i fwynhau'r golygfeydd, mae'r dewis gennych ai i droi ar eich sawdl a disgyn o'r mynydd yn dilyn yr un llwybr yn ôl i'r man cychwyn neu


Moel Eilio o'r Foel Goch


Moel Eilio o Ddinorwig


Llwybr o'r Waunfawr i ben Moel Eilio


Golygfa tua'r Wyddfa o ben Moel Eilio


Golygfa draw i Ynys Môn o ben Moel Eilio

gerdded ymlaen i gyfeiriad Llyn Cwellyn, sydd islaw, dros gefnau Foel Gron a Foel Goch cyn disgyn i Fwlch Maes Gwm. O'r fan yma mae modd ymuno â'r llwybr sy'n arwain i lawr i Lanberis. Yn nes ymlaen bydd modd ymuno â'r lôn fynydd sy'n cysylltu'r ddau bentref. Wrth droi i fyny'r ffordd yma byddwch yn cyrraedd yn ôl at y man cychwyn wrth y chwarel. I wneud y daith i gyd mae'n bwysig eich bod yn weddol heini. Mae'n cymryd rhwng pump i chwe awr i'w chwblhau yn hamddenol gan fwynhau'r golygfeydd godidog ar y daith- a chofio mynd â phicnic wrth gwrs.

G.R

**OND DANNI'N MYND YN HŶN!!!**

Erbyn hyn, dydi hi ddim yn bosibl cyrraedd y copaon ond mae peth wmbredd o lwybrau sy'n ein denu o hyd ac yn rhoi pleser di-ben-draw inni. Byddwn yn trio achub ar y cyfle pan fydd y tywydd yn ffafriol i droedio rhai ohonynt.

Un o fy ffefrynnau ydy'r daith o ben draw Dinorwig a thrwy'r giat mochyn, sy'n mynd a chi i fyny i'r rhan o'r chwarel elwid yn "Mills" neu "Ffiar Injian", mae'r llwybr yn eich arwain at olygfan arbennig. Yno y cewch olygfa gwerth chweil. Gellwch edrych i fyny tua Nant Peris ar Lyn Peris a Chastell Dolbadarn, i lawr at y barics lle byddai chwarelwyr o Ynys Môn yn treulio'r wythnos waith, Llanberis, Llun Padarn ac i gyfeiriad Caernarfon.

Mae mynydd uchaf Cymru o'ch blaen - a'r gobaith ydy gweld amlinelliad o Frenhines yr Wyddfa ar ei llethrau - ac efallai fwg y tren bach. Fydda i byth yn blino edrych ar safle'r chwarel a rhyfeddu at yr holl weithgarwch a fu yno - a dychmygu sut yn y byd y byddai'r chwarelwyr - a fy nhaid yn eu plith - yn dygymod a'r tywydd garw a gweithio yng ngerwinder y gaeaf.

Mae'n llecyn i ymweld ag o pan mae'r haul yn machlud ar noson braf o haf. A phwy a ŵyr-efallai y clywch y gwcw'n canu gerllaw.

A.R.

**- MOEL EILIO / EILIAN -**

Er fod yr enw Moel Eilio yn ymddangos ei fod wedi ei dderbyn yn gyffredinol ar fapiau a dogfennau eraill, mae yn swnio yn chwithig iawn i rhywun fel fi sydd wedi cael fy ngeni a thyfu i fyny yn Ninorwig a gweld **Moel Eilian** bob dydd – Dyna'r enw a ddefnyddir yn lleol ac y mae enwau fel **Maes Eilian** ar dai cyngor yn Ninorwig ac yn Llanberis mae yna **Dôl Eilian**, **Llwyn Eilian**, **Tyddyn Eilian**, **Rhesdai Eilian** ac y mae'r enw Eilian ar nifer o fechgyn yn y fro yn tystio mai dyna'r enw sy'n cael ei dderbyn yn lleol. Dw'i heb glywed am dai nag unigolion efo'r enw Eilio. Os gwyddoch rhowch wybod. Eirwyn



Y 'gât mochyn' sy'n arwain i'r chwarel



Yr olygfan sy'n edrych dros ddyffryn Peris



Brenhines yr Wyddfa



Nant Peris a'r Wyddfa o olygfan y chwarel



Y chwarel wrth edrych yn ôl o'r olygfan

## WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL

## 15 - 21 MAI 2022

Pob rhodd. Pob gweithred. Pob gweddi. Mae pob un ohonom yn gallu newid bywydau. Mae sychder yn achosi newyn. Mae'n amddifadu merched o'r gallu i drin y tir a thyfu bwyd ar gyfer eu teuluoedd.

Heddiw, am y tro cyntaf mewn cenhedlaeth, mae tlodi byd-eang yn cynyddu. Oherwydd Cofid-19, rhyfel a'r argyfwng hinsawdd mae mwy a mwy o'n cymdogion ar draws y byd yn brwydro i oroesi.

Mae merched a dynion Zimbabwe yn dyheu am ddyfodol mwy gobeithiol. Bydd mamau eu hunain yn peidio bwyta er mwyn gallu rhoi yr ychydig fwyd sydd ar gael i'r plant.

Un o'r mamau hynny yw Jessica Mwedzi. Oherwydd sychder mae pob dydd yn frwydr i oroesi. Mae Jessica yn newynu. Yn deisyfu pryd iawn o fwyd. Awyddus am gyfle i ennill bywoliaeth dda. Yn crefu am siawns i ddarparu dyfodol mwy gobeithiol i'w theulu. "Mae fy mhlant yn ysu am fwyd ond ni allaf ei roi iddynt", meddai Jessica "Mae'n brifo gorfod eu gyrru i'r gwely eisiau bwyd."





Gall eich rhodd helpu Jessica i dyfu cnydau mwy addas i dir sych. Gallwch ei helpu i sefydlu tap dŵr ar y fferm a dysgu sut i dyfu bwyd mewn hinsawdd anodd. Mi fydd hi'n troi ei thir sychlyd, cras yn ardd llawn gobaith. Drwy gefnogi Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, gallwch chi fod yn un o'r miloedd ar filoedd o bobl sy'n barod i roi, gweithredu a gweddïo dros ein cymdogion byd-eang. Gyda chi wrth ein hochr, ni fyddwn yn stopio nes bod pawb yn gallu byw bywyd llawn, yn rhydd o afael newyn a thlodi.

**Yn ystod wythnos Cymorth Cristnogol eleni, Mai 15fed i 21ain, os gwelwch yn dda:**

- *Rhowch yn hael i gynorthwyo merched i dyfu cnydau fydd yn goroesi sychder*
- *Codi llais a gweithredu dros gyfiawder. Ymunwch yn ein hymgyrch Colled a Difrod.*
- *Gweddio bydd teuluoedd yn sefyll yn gadarn yn ystod cyfnodau anodd o sychder.*

*Gyda'n gilydd gallwn droi newyn yn obaith!*

*Eleri Ll. Jones*

*Mae ein diolch yn fawr i Siân Arwel a Branwen Jarvis am ysgogi cyfranwyr a chasglu a chydlynu'r deunydd ar gyfer y rhifyn yma.*

**Ar gyfer rhifyn Mehefin 2022**
**dylid gyrru'r holl ddeunydd i Meriel Parry erbyn 22ain o Fai**

**ebost :** *merielparry@gmail.com*, **Ffôn :** *01248 352205.*

**gyda copi(cc) i'r Negesydd**
**ebost :** *negesydd@btinternet.com*